# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

### Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 12fed Mai 2025
### Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Dafydd Williams, Gareth Jones, Alyn Williams, Henry Hughes, Deio Williams, John Davies, Sioned Pearson, Chris Brady, Alan Hughes

Ymddiheuriadau: Catrin Williams, Sian Parry

1. Cadeirwyd gan Sioned Pearson, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Derbynwyd cadarnhad fod y Cais Cynllunio wedi ei gyflwyno i'r Adran Gynllunio.
   b. **Polisi Gosod Tai** – Yn absenolden Sian Parry adroddodd y Clerc yr hyn a drafodwyd yn yr is bwyllgor Iaith ar camau nesaf ymlaen sef:
      · Paratoi dogfen ddrafft Polisi Gosodiadau Lleol yn unol a chyngor cyfreithiol newydd Comisiynydd y Gymraeg a'i chyflwyno i ymgynghoriad.
      · Gofyn i Gyngor Gwynedd gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref y penrhyn i gydyn rhan o'r ymgynghoriad ar sefydlu'r polisi gosod ym Mhenyberth, oherwydd fod pentref newydd o 107 o dai, sydd yn fwy na mwyafrif o bentrefi Llŷn, am gael effaith enfawr ar iaith a diwylliant y penrhyn i gyd.
      · Galw ar i Gyngor Gwynedd beidio a chaniatau unrhyw gais cynllunio arall am ddatblygiad tai cymdeithasol na fforddiadwy oni bai fod y Cyngor Cymuned neu Dref yn cefnogi'r datblygiad a fod yna Bolisi Gosod Lleol a chytundeb 106 yn eu lle fydd yn

unol a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Trafodwyd a penderfynwyd yn unfrydol 'Cefnogi' y camau uchod.

c. **Hysbysfwrdd –** Erbyn hyn mae hysbysfwrdd Garnfadryn yn ei le – bydd y Clerc yn talu £1200 i 'Llyn Wood Product' Dywedodd Chris Brady fod hysbysfwrdd Tudweiliog yn barod ond ei osod.

**Ch. Safle Bws Dinas –** Dywedodd y Clerc na fu iddi glywed dim yn ychwaneg gan y Cyngorydd Gareth Jones.

d. **Dwr croni Plas Ym Mhenllech –** Derbyniodd y Clerc gadarnhad gan yr adran ffyrdd fod y safle bellach wedi cael sylw.

**dd.Gwartheg yn croesi ffordd Hirdre Fawr –** Derbyniodd y Clerc ebost yn cadarnhau fod y cais wedi ei anfon ymlaen I'r adran traffic I'w ystyried. Yn ychwanegol I hyn daeth pryder fod giat y cae yn cael ei gadael ar agor a bod y giat yn gwynebu am y am y

ffordd fawr, ac y gallai hyn achosi damwain. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r perchenog.

4. Gohebiaeth:

a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.

b. **Anfoneb John Tudor £140.00 –** Derbynwyd caniatad i'w thalu

c. **Derbyn hanner cyntaf praesept £5000.**00 –

**Ch. Llythyr Sian Gwenllian –** Derbynwyd lythyr gan Sian Gwenllian AS

Yn diolch am gefnogaeth I'r cais am Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

d. **Llythyr penodi Archwyliad Mewnol –** Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr sy'n penodi Cyngor Gwynedd I weithredu'r Archwyliad Mewnol.

**dd.Talu Capeli-** Derbyniodd y Clerc ganiatad I dalu i'r tri Capel fel a

ganlyn am gael cynnal cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn fisol:-

Capel Garnfadryn - £80.00
Capel Dinas - £60.00
Capel Tudweiliog £80.00

5. Unrhyw fater arall

a. Daeth pryder I law fod wal 'Gwelfor' Tudweiliog wedi cael ei tharo a bod darnau ohoni wedi disgyn o ganlyniad I gerbyn ei tharo. Bydd y Clerc yn cysylltu a Carter Jonas sef asiant y perchenog Cefnamwlch.
b. Daeth pryder I law fod glawdd mynwent Dinas (dros y ffordd a Bragdy Dinas) yn disgyn yn raddol I'r ffordd a hynno o ganlyniad I drafnidiaeth llydan sy'n teithio'n aml ar y ffordd yma. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd I ofyn cyfrifoldeb pwy ydi'r clawdd.
c. Derbyniwyd pryder am fod Grwp Cynefin yn cyflwyno cais cynllunio i godi 14 ty cymdeithasol yn Nefyn er bod Cyngor Tref Nefyn wedi ei wrthwynebu yn gryf. Pasiwyd i ddatgan ein cefnogaeth i wrthwynebiad Cyngor Tref Nefyn ac i gyflwyno'r hyn a basiwyd yn yr is-bwyllgor Iaith sef gofyn i Gyngor Gwynedd beidio a chaniatau unrhyw gais cynllunio arall am ddatblygiad tai cymdeithasol na fforddiadwy oni bai fod y Cyngor Cymuned neu Dref yn cefnogi'r datblygiad a fod yna Bolisi Gosod Lleol a chytundeb 106 yn eu lle fydd yn unol a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
   Hefyd roi gwybod i Gynghorydd Nefyn fod yna ddogfen ddrafft o Bolisi Gosod Lleol wedi cael ei hanfon at swyddogion polisi Comisiynydd y Gymraeg ac y bydda nhw yn rhoi sylwadau llawn arni hi yr wythnos nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Mehefin 9fed am 7.30yh
Festri Capel Tudweiliog.